**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AM
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Ionawr 2017

Annwyl Simon,

**BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)**

Diolch i chi unwaith eto am ystyried Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn ystod cyfnod 1. Rwy'n falch bod cytundeb ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid ac i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu hargymhellion yn hyn o beth.

Yn ystod y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil ar 10 Ionawr, fe wnes i gadarnhau y byddwn yn darparu ymateb manwl i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor a'i 18 o argymhellion. Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i'r argymhellion; mae hyn yn cynnwys manylion lle'r wyf yn cytuno bod angen cyflwyno gwelliannau i'r Bil. Rwyf eisoes wedi cyflwyno 23 o welliannau'r Llywodraeth a byddaf yn cyflwyno rhagor o welliannau cyn i'r cyfnod cyflwyno gwelliannau ddod i ben.

Rwyf eisoes wedi cyflwyno fy ymateb i dri o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn fy llythyr iddynt ar 10 Ionawr. Rwyf wedi derbyn dau o'r argymhellion hyn, ac rwy'n croesawu'r sylwadau cadarnhaol gan Gadeirydd y Pwyllgor yn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd y wybodaeth atodedig yn eich helpu i graffu ymhellach wrth i'r Bil fynd drwy Gyfnod 2. Edrychaf ymlaen at weithio gydag aelodau'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

# Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) – Cyfnod 1

## Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae'n gwneud cyfres o argymhellion yn yr adroddiad hwn, y mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy er mwyn cryfhau'r darpariaethau yn y Bil.

Rwy'n ddiolchgar am yr holl fewnbwn gan Bwyllgorau'r Cynulliad, sydd wedi cyfrannu at y broses gadarn o graffu ar y Bil, ac rwy'n falch eu bod wedi gallu argymell i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y Cynulliad a'r Pwyllgor yn cael gwybod am y cynnydd o ran sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'n argymell y gwneir hyn drwy ddatganiadau unwaith bob tymor y Cynulliad.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn a byddaf yn parhau i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Pwyllgor ar y cynnydd wrth sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol yn cael eu sefydlu gyda Chyllid a Thollau EM a'r Gofrestrfa Tir ar rannu gwybodaeth a mynediad at wybodaeth arbenigol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae fy swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM a'r Gofrestrfa Tir. Bydd cytundebau ffurfiol yn cael eu llunio ar faterion penodol, yn cynnwys rhannu data, ac ar ddatblygu prosesau rhwng sefydliadau ac ACC.

Yn benodol, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yn awr gyda CThEM ar sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gysylltiadau strategol ehangach. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth eisoes wedi'i sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM a disgwylir i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth gael ei sefydlu eleni gyda CThEM a'r Gofrestrfa Tir.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithgor o ymarferwyr cyn gynted â phosibl i drafod materion gweithredu technegol ac ymarferol. Dylai'r cyfrifoldeb am grŵp o'r fath gael ei drosglwyddo i Awdurdod Cyllid Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith y grŵp fod mor dryloyw ac agored â phosibl.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Fel y gŵyr y Pwyllgor, sefydlodd Llywodraeth Cymru dri grŵp allanol yn 2014 sydd, ers y dyddiad hwn, wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r polisi a'r ddeddfwriaeth ar drethi datganoledig, sef y Grŵp Gweinidogol Cynghori ar Drethi, y Fforwm Trethi lefel swyddogion a'r Grwpiau Arbenigwyr Technegol ar gyfer trethi yn benodol. Mae'r Fforwm Trethi yn cael ei fynychu gan bobl broffesiynol a sefydliadau cynrychioliadol sy'n ymwneud â pholisi trethi a gweinyddu trethi, ac mae'n arwain trafodaethau ar faterion gweithredol technegol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â phob

un o'r trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae Dyfed Alsop, Cyfarwyddwr Gweithredu ACC, wedi ymgymryd â rôl cadeirydd y Fforwm Trethi yn ddiweddar.

Yn ogystal â'r grwpiau hyn, bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i helpu i ddrafftio canllawiau. Bydd Rhaglen Weithredu ACC yn arwain y trefniadau ar gyfer y grŵp hwn.

Yn ogystal, bydd gweithgor gweithredol hefyd yn cael ei greu cyn bo hir i brofi'r systemau a'r prosesau digidol gyda'r asiantau.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Awdurdod Cyllid Cymru yn ymgysylltu â'r proffesiynau perthnasol o'r dechrau wrth lunio canllawiau Treth Trafodiadau Tir.

Rwy'n fodlon **derbyn** yr argymhelliad hwn. Anfonais lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 11 Hydref yn datgan y dylid datblygu canllawiau a chyngor gweithredol ar y cyd â threthdalwyr ac asiantau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion.

ACC fydd yn gyfrifol am ddatblygu'r canllawiau, ac mae hyn yn gyfle i ACC ddatblygu ac atgyfnerthu cysylltiadau gwaith cryf gyda threthdalwyr ac asiantau. Cafwyd galwadau gan randdeiliaid i wella'r canllawiau presennol mewn rhai meysydd, a hefyd mae agweddau o'r Bil sy'n newydd neu y mae angen canllawiau mwy manwl arnynt, megis y Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Treth.

Fel y nodais o dan **Argymhelliad 4**, bydd gweithgor yn cael ei sefydlu yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn hon i helpu i lunio'r canllawiau - er mwyn gwella'r canllawiau presennol a datblygu a phrofi canllawiau newydd. Cyflwynodd fy swyddogion eu syniadau a'u hegwyddorion cychwynnol ar gyfer datblygu canllawiau mewn gweithdy ar 7 Rhagfyr, a hoffwn ddiolch i'r rhanddeiliaid a'r ymarferwyr am barhau i roi o'u hamser a chyfrannu at y trafodaethau pwysig hyn. Rwy'n rhagweld y bydd gan ACC fersiynau terfynol o'r canllawiau yn barod i'w rhannu gyda threthdalwyr ac asiantau erbyn dechrau 2018 - mewn da bryd i'w helpu i ddeall y system drethi newydd.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai tabl yn amlinellu'r gwahaniaethau rhwng Treth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp gael ei gynnwys yn y canllawiau.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd darparu canllawiau clir a chadarn, ac fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau, byddwn yn disgwyl i ACC ddarparu crynodeb o'r prif wahaniaethau rhwng Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir, yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o sut y gallai'r gwahaniaethau effeithio ar rai trafodiadau.

Byddwn yn disgwyl i ACC gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael mewn fformat hygyrch a defnyddiol. Ar y sail hon, rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 7**
Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar y darpariaethau yn y Bil, y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Gofrestrfa Tir i wneud y gwaith o ddarparu map o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn cychwyn Treth Trafodiadau Tir.

Rwy'n cydnabod yr elfennau cymhleth posibl wrth nodi ffiniau ar gyfer eiddo croes-deitl.

Mae'n hollbwysig mabwysiadu dull cydweithredol gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo – mae Tîm Gweithredu ACC yn trafod gyda'r Gofrestrfa Tir y ffordd orau o gynorthwyo trethdalwyr i nodi lle mae'r ffin ar y teitlau perthnasol a chwmpas a chost y gwaith dan sylw.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar yr argymhelliad hwn i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd. Ar y sail hon rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 8**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi rhagor o wybodaeth yn egluro sut y mae'n bwriadu i'r ddeddfwriaeth bennu sut y bydd yn dosrannu'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy ar drafodiadau eiddo trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon drafod materion fel "dosrannu teg a rhesymol", a rhoi eglurder ar y gofyniad am ddau drosglwyddiad ar gyfer 6 trafodiadau trawsffiniol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn unrhyw ystyriaethau yng Nghyfnod 2.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn, ac yn ystyried bod angen dull gweithredol ar y cyd ar gyfer trafodiadau eiddo trawsffiniol, fel y nodwyd yn fy llythyr diweddar dyddiedig 10 Ionawr. Rwy'n bwriadu rhannu llythyr a ysgrifennwyd ar y cyd gan ACC a CThEM gyda'r Pwyllgor cyn trafodion Cyfnod 2, ar 16 Chwefror, a fydd yn darparu rhagor o wybodaeth am y dull integredig arfaethedig hwn.

Yn fy llythyr dyddiedig 10 Ionawr, esboniais y byddai ACC yn arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau ar eiddo trawsffiniol a thraws-deitl, yn cynnwys ystyried dosrannu ar sail deg a rhesymol. Bydd gwybodaeth glir am sut y bydd y ffin yn cael ei phennu yn yr achosion hyn. Bydd y canllawiau'n cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cyfathrebu, gan gynnwys goblygiadau adnoddau tebygol, am y cyfnod sy'n arwain at roi unrhyw ddarpariaethau Treth Trafodiadau Tir ar waith.

Rwy'n fodlon **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a bydd hyn yn parhau yn ystod y cyfnod yn arwain at gychwyn y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

Mae fy swyddogion wedi sefydlu Prosiect Pontio Trethi Datganoledig Cymru gyda CThEM. Bydd y prosiect hwn yn cynnwys grŵp cyfathrebu ar y cyd o randdeiliaid craidd yn y ddwy weinyddiaeth, a fydd yn datblygu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr a chydgysylltiedig i gefnogi'r broses bontio gyffredinol tuag at drethi datganoledig. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod cyfnod pontio esmwyth rhwng y systemau presennol a'r systemau newydd a sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar y rhai sy'n prynu eiddo yng Nghymru.

Trefnwyd sesiwn friffio dechnegol gyda'r Pwyllgor ar **8 Chwefror**, ar y cynnydd o ran sefydlu ACC, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygu cynllun cyfathrebu.

**Argymhelliad 10**
Er mwyn mynd i'r afael â phryderon tystion, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ymrwymo i ymgynghoriad llawn a helaeth ar gyfraddau a bandiau cyn penderfyniad Llywodraeth Cymru.

Fel yr esboniais yn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol a'm llythyr dyddiedig 10 Ionawr, rwy'n ymrwymedig i barhau i ymgysylltu a chynnal deialog gydag ystod eang o randdeiliaid ar gyfraddau a bandiau treth.

Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i bennu cyfraddau a bandiau treth yn un o swyddogaethau allweddol y llywodraeth. Mae'r farn hon wedi'i hategu gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Dreth Trafodiadau Tir a chytunwyd mai mater polisi i Lywodraeth Cymru yw pennu cyfraddau a bandiau treth.

Mae'n bwysig cydnabod bod gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl hollbwysig yn y broses hon. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r set gyntaf o reoliadau sy'n nodi'r cyfraddau a'r bandiau treth gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan y Cynulliad drwy'r weithdrefn gadarnhaol cyn y gallant ddod i rym. Byddai unrhyw amrywiad yn y cyfraddau a'r bandiau treth hyn yn cael eu cyflwyno drwy reoliadau pellach a fydd yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol dros dro.

Un o'r prif resymau dros fabwysiadu'r weithdrefn gadarnhaol dros dro yw er mwyn sicrhau bod modd gwneud newidiadau'n gyflym, ac osgoi'r posibilrwydd o lesteirio'r farchnad. Gallai cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfraddau a bandiau treth atgyfodi'r risg o lesteirio'r farchnad eiddo, sy'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i'w osgoi.

Rwy'n hyderus y bydd y gweithdrefnau sy'n cael eu mabwysiadu yn y Bil hwn yn sicrhau cyfleoedd digonol i graffu ar y fframwaith cyfraddau a bandiau treth ar yr amser priodol a sicrhau ei fod yn briodol i Gymru. Felly **nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal yr ymgysylltiad a'r ddeialog sy'n mynd rhagddynt yr ydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iddynt.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth ar gyfer rhyddhadau priodol ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo a Chynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth drwy welliannau yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau na fydd hyn yn datgymell buddsoddiad masnachol mewn eiddo yng Nghymru yn anfwriadol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Cyflwynais **Welliant 1**, i Ran 5 o'r Bil, ar 11 Ionawr. Mae hwn yn cynnig rheol gyffredinol sy'n nodi sut y bydd Cynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth yn cael eu trin at ddibenion treth a sicrhau na fydd Treth Trafodiadau Tir yn cael ei chodi wrth drosglwyddo llog o fewn Cynllun a dim ond wrth i'r Cynllun ei hun gaffael eiddo.

*Nid* yw'r rheol hon yn darparu rhyddhad arian cychwynnol ar gyfer Cynlluniau Cytundebol Awdurdodedig Cydberchnogaeth (CoACS) neu Gronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo am nad wyf yn ystyried bod achos digon cryf i gynnwys rhyddhad o'r fath yn y Bil ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n gwneud darpariaeth er mwyn inni allu cyflwyno rhyddhad arian cychwynnol yn y dyfodol, os bydd angen, drwy reoliadau a wneir o dan adran 30. Mae hyn yn gam pwysig, gan fy mod yn cydnabod y gallai ddenu rhagor o fuddsoddiad i'r farchnad eiddo yng Nghymru.

Mae hwn yn fath newydd o ryddhad ac felly bydd angen gwneud gwaith i ddechrau dadansoddi effaith bosibl y rhyddhad yng Nghymru, ac yn wir ystyried a yw'n briodol ei efelychu yng Nghymru. Nid wyf yn credu y byddai'n bosibl trosi rhyddhad arian cychwynnol Treth Dir y Dreth Stamp ar gyfer Cronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Eiddo a CoACS i'r dreth hon a thybir y bydd y rhyddhad yn gweithio yng Nghymru. Mae'n hollbwysig sicrhau bod y rhyddhad yn briodol i Gymru er mwyn sicrhau ei fod yn targedu'r trafodiadau cywir ac nad yw pobl ddiegwyddor yn cam-fanteisio arno.

Un maes penodol lle y gall fod angen cyflwyno newidiadau yw'r amodau cymhwyster ar gyfer hawlio rhyddhad, a'r 'prawf portffolio'. Mae'r amod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r trafodiad gynnwys nifer gofynnol o eiddo (10 eiddo dibreswyl neu 100 eiddo preswyl) a gwerth gofynnol o £100 miliwn. Er y byddai'r mathau hyn o drafodiadau yn anghyffredin iawn yng Nghymru, hoffwn gael cyfle i ystyried a oes achos dros gyflwyno amodau cymhwyster gwahanol.

Fel rhan o'n gwaith i ddeall effaith bosibl y rhyddhad yng Nghymru, bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys CThEM, er mwyn ystyried a ddylid addasu'r prawf portffolio hwn i sicrhau bod y rhyddhad yn briodol ar gyfer Cymru.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith pob rhyddhad yn ofalus, yn benodol rhyddhad anheddau lluosog, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau i ddiwygio'r ddarpariaeth o ryddhadau os bydd angen i fynd i'r afael ag unrhyw gymhellion croes.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n cydnabod bod Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid wedi pwysleisio pwysigrwydd monitro effaith pob rhyddhad yn ofalus. Mae hefyd yn werth ailadrodd bod rhanddeiliaid wedi pwysleisio manteision cynnal rhywfaint o gysondeb rhwng y rhyddhadau a gynigir ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r rhai sy'n cael eu darparu gan Dreth Tir y Dreth Stamp ar hyn o bryd; ni fydd newid er mwyn newid.

Mae *Tabl 2* y Memorandwm Esboniadol yn rhoi crynodeb o'r mathau mwyaf cyffredin o ryddhadau ar gyfer eiddo preswyl ac amhreswyl a hawliwyd yng Nghymru yn 2014/15. Fe welwch ein bod eisoes yn cynnal asesiadau blynyddol ar y defnydd o ryddhadau Treth Dir y Dreth Stamp a'u gwerth yng Nghymru. Bydd hyn yn parhau hyd Ebrill 2018 ac ar ôl i'r Dreth Trafodiadau Tir gael ei chyflwyno.

Mae darparu rhyddhadau yn debygol o arwain at oblygiadau o ran cost, felly mae'n bwysig bod yn hyderus y bydd unrhyw ddiwygiadau i ryddhadau presennol, neu unrhyw ryddhad newydd arfaethedig o fudd i'r grŵp targed ac yn cyflawni'r canlyniad polisi a ddymunir.

Fel y dywedais yn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol, bydd polisi ar newid rhyddhadau neu gyflwyno rhyddhadau newydd yn y dyfodol yn dilyn dull Llywodraeth Cymru o ystyried trethi newydd. Mae hyn yn cynnwys proses glir a chyfnod casglu tystiolaeth, sy'n cynnwys sicrhau bod unrhyw ryddhadau newydd posibl yn gyson â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru, eu bod yn gost-effeithiol a'u bod yn cyrraedd eu targed polisi bwriadedig.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu canllawiau ar weithredu'r Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn, ond yn nodi mai Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn arwain y gwaith o ddarparu canllawiau.

Rwy'n cydnabod yr angen am ganllawiau ymarferol clir a chadarn i ategu'r rheol newydd hon; ac Rwy'n awyddus i sicrhau bod ACC yn cydweithio gyda rhanddeiliad i ddatblygu'r canllawiau hyn ar egwyddorion sylfaenol y rheol hon. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys enghreifftiau o sut y bydd y Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Treth yn cael ei chymhwyso; gan gynnwys sut i wneud cais ar gyfer y trethi hynny nad ydynt wedi'u datganoli.

Bydd Rhaglen Weithredu ACC yn arwain y trefniadau ar gyfer y gweithgor a sefydlwyd i helpu i lunio'r canllaw, bydd hyn yn cynnwys mewnbwn gan arbenigwyr polisi pan fydd angen.

**Argymhelliad 14**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai datganiad o fwriad y polisi ar gyfer pob un o ryddhadau, gan gynnwys y rhyddhadau newydd a argymhellwyd gan y Pwyllgor, gael eu cynnwys yn fawl yn y nodiadau esboniadol i'r Bil.

Rwy'n **derbyn yr egwyddor sylfaenol** ac yn cydnabod ceisiadau gan randdeiliaid y gellid darparu eglurder a sicrwydd er mwyn esbonio diben rhai rhyddhadau yn y Bil hwn.

Darperir gwybodaeth ychwanegol yn y nodiadau esboniadol i egluro diben arfaethedig rhyddhadau allweddol, yn cynnwys rhyddhad anheddau lluosog, rhyddhad i elusennau, rhyddhad grŵp a rhyddhad cyllid eiddo eraill.

Bydd ACC hefyd yn darparu canllaw manwl i sicrhau bod ymarferwyr a threthdalwyr yn deall pryd y gellid hawlio rhyddhad. Rwy'n hyderus y bydd y camau hyn yn sicrhau y bydd gan drethdalwyr a'u cynghorwyr wybodaeth ddigonol am y rhyddhadau sy'n cael eu darparu gan y bil hwn.

Mae *Tabl 2* yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r defnydd o ryddhadau yng Nghymru a'u gwerth, a defnyddir hyn fel canllaw i bennu lle y byddai'n briodol darparu'r wybodaeth a'r esboniad ychwanegol hyn.

Byddaf yn cyflwyno'r Nodiadau Esboniadol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3.

**Argymhelliad 15**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai canllawiau manwl gael eu darparu i ymdrin â chymhwyso'r Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi, yn enwedig gan mai'r bwriad yw ei bod yn gymwys i drethi nad ydynt wedi'u datganoli a sicrhau bod ei diben yn parhau yn gul a chyda ffocws fel y nodir yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor dyddiedig 2 Tachwedd 2016.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn, ond yn nodi mai ACC fydd yn arwain y broses o ddarparu canllaw.

Fel y nodais o dan **Argymhelliad 13**, rwy'n cydnabod bod angen darparu canllawiau manwl ar sut y bydd y Rheol wedi'i Thargedu yn erbyn Osgoi Trethi (TAAR) yn cael ei chymhwyso, yn cynnwys sut i wneud cais ar gyfer y trethi hynny nad ydynt wedi'u datganoli.

Rwyf wedi ymateb yn flaenorol i lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar fy marn ynglŷn â datblygu'r canllawiau. Bydd ACC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r canllawiau, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn barod i drethdalwyr a'u hasiantau o ddechrau 2018 ymlaen.

**Argymhelliad 16**

16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau ar ffurf y dystysgrif sy'n ofynnol o dan adran 64 o'r Bil, a hynny i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r Gofrestrfa Tir cyn gwneud rheoliadau ar ffurf y dystysgrif. Y Gofrestrfa Tir fydd y rhanddeiliad allweddol a fydd yn derbyn y dystysgrif a gyflwynir gan ACC ar ôl cwblhau'r ffurflen. Felly, mae'n bwysig bod ffurf y dystysgrif yn dderbyniol i ACC ac i'r Gofrestrfa Tir.

Rwy'n disgwyl i'r trafodaethau ar y dystysgrif fod yn rhan o'r ymgysylltiad parhaus rhwng fy swyddogion a'r Gofrestrfa Tir wrth baratoi ar gyfer Ebrill 2018.

**Argymhelliad 17**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai paratoi canllawiau ar weithredu'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi fod yn flaenoriaeth ar unwaith i Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'n argymell y dylai Awdurdod Cyllid Cymru weithio gyda rhanddeiliaid ar lunio canllawiau, gan sefydlu panel cynghorol ar y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi o bosibl.

Rwy'n **derbyn** bod angen i'r gwaith o baratoi'r canllawiau ar y Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi fod yn flaenoriaeth i ACC. Rwy'n awyddus i sicrhau bod ACC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r canllawiau newydd hyn ar yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r rheol hon.

Fel y nodais yn flaenorol, bydd gweithgor yn cael ei sefydlu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon i helpu i lunio'r canllawiau, o dan arweiniad tîm gweithredu ACC, gan wneud defnydd o arbenigwyr allanol dibynadwy i gael cyngor ar ddatblygu'r canllawiau hyn.

**Argymhelliad 18**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu'r costau amcangyfrifedig diweddaraf cyn trafodion Cyfnod 2, gan gyfeirio'n benodol at gostau TG a chostau sefydlu.

Fel yr esboniais yn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol ac yn fy llythyr dyddiedig 10 Ionawr, rwy'n ymrwymedig i ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid ar y costau ar gyfer sefydlu'r ACC yn ystod hynt y Bil hwn. Mae'r prif gostau'n gysylltiedig â'r bobl sydd eu hangen i weithredu ACC o Ebrill 2018 ymlaen, a darparu gwasanaethau TGCh digidol er mwyn casglu a rheoli ei drethi.

Bydd ACC yn sefydliad bychan gyda gweithlu bychan ond medrus iawn (tua 40 aelod o staff). Mae'r gwaith o ddiffinio'r gofynion ar gyfer y gweithlu yn parhau a bydd y broses recriwtio yn dechrau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Byddwn yn ystyried defnyddio sgiliau ac arbenigedd presennol Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth sifil yn gyffredinol i ddechrau. Yn benodol, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau rydym eisoes wedi'u meithrin yn Llywodraeth Cymru yn ystod y gwaith o ddatblygu polisi trethi a rhoi'r awdurdod hwn ar waith, ac yn adeiladu ar y gwaith hwn i ddatblygu galluogrwydd o ran casglu trethi. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CThEM hefyd, ac yn gwneud defnydd o'i arbenigedd a'i wybodaeth. Byddwn yn ystyried benthyciadau a secondiadau staff posibl hefyd er mwyn datblygu a gwella arbenigedd ACC ar gydymffurfiaeth.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi nodi eisoes fy mwriad i roi diweddariad ar y gwaith o ddatblygu amcangyfrifon costau a phryd y bydd amcangyfrif diwygiedig ar gael cyn trafodion Cyfnod 2.

Yn ogystal â hyn, cynhelir sesiwn friffio dechnegol ar **8 Chwefror** er mwyn darparu gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran datblygu ACC.